LC296

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Addysg (Cyrff Sefydledig) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae corff sefydledig yn gorff corfforaethol wedi'i sefydlu o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i gyflawni'r swyddogaethau canlynol mewn perthynas â grŵp o dair neu ragor o ysgolion sefydledig neu wirfoddol –

- Dal eiddo ar ran yr ysgolion,
- Penodi llywodraethwyr sefydledig ar gyfer yr ysgolion,
- Hybu cydweithredu rhwng yr ysgolion yn y grŵp.

Mae'r Rheoliadau presennol yn cynnwys darpariaeth fanwl ynghylch sefydlu cyrff sefydledig, eu haelodaeth a'u pwerau.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r Rheoliadau hyn, mae cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor wedi llwyddo i nodi nifer o bwyntiau sydd bellach wedi'u cymryd i ystyriaeth yn y drafft terfynol. Gan hynny, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi ar hyn o bryd fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 2(1) – "Y Rheoliadau Newid Categori"**

Mae'r Rhif OS yn dal ar ôl i'w fewnosod yn nhroednodyn (c).

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

26 Mehefin 2001